Dyddiad cyhoeddi: 07 Awst 2018

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 08 Gorffennaf 2018 pan ofynnoch am wybodaeth ynglŷn â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru, eich eglurhad eich bod yn ceisio am **'yr adroddiad sy'n dangos sut mae'r £13 miliwn yn cael ei wario fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth Awtistiaeth Genedlaethol'** a'ch esboniad ymhellach dyddiedig 11 Gorffennaf 2018 yr wyf wedi'u hamlinellu isod gyda'n hymatebion cyfatebol.

Nodwch nad ydym yn ymwneud ag unrhyw waith penodol o ran y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, ond rydym yn cynnal adolygiad Cymru gyfan o'r Gronfa Gofal Integredig, sy'n archwilio "A yw'r Gronfa Gofal Integredig yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau?' Mae ein hadolygiad yn ystyried y canlynol a gobeithiwn gwblhau a chyhoeddi ein hadroddiad erbyn 2019 cynnar:

- A yw Llywodraeth Cymru yn rheoli'r Gronfa Gofal Integredig yn effeithiol i gyflawni yn erbyn ei bwriadau?
- A all Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddangos goruchwyliaeth effeithiol dros y Gronfa Gofal Integredig?
- A yw prosiectau a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig yn cael eu rheoli'n effeithiol i wneud gwahaniaeth clir ar lefel leol?

Er nad ydym yn edrych yn fanwl ar brosiectau unigol a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig, rydym wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ariannol fel y gwelir yn ein hymateb isod.

1. **Faint o arian a roddwyd/sydd ar y gyllideb ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth rhwng 2015 a 2022.Nodwch ba arian sydd wedi'i ddyrannu, y sefydliad(au) dan sylw a darparwch unrhyw adroddiadau/dogfennau tendro llwyddiannus.**

   Nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn.

2. **Faint o arian a roddwyd/sydd ar y gyllideb i gefnogi datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig 2015-2022.Nodwch ba arian sydd wedi'i ddyrannu, y sefydliad(au) dan sylw a darparwch unrhyw adroddiadau/dogfennau tendro llwyddiannus.**

Rydym yn cadw ychydig o wybodaeth mewn perthynas â chyllid a ddyrennir i Wasanaethau Awtistiaeth Integredig ledled Cymru gan y Gronfa Gofal Integredig fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos:

Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	2016-17	2017-18	2018-19
Caerdydd a'r Fro	204,000	367,000	367,000
Cwm Taf	204,000	367,000	367,000
Gwent Fwyaf	249,000	458,400	458,000
Gogledd Cymru	-	508,800	652,000
Powys	188,000	336,800	337,000
Gorllewin Cymru	-	318,200	398,000
Bae'r Gorllewin	-	318,200	398,000
CYFANSWM	**845,000**	**3,000,000**	**3,000,000**

Cadwyd £325,600 ychwanegol yn ganolog gan Lywodraeth Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer 2017-18, a £23,000 ar gyfer 2018-19.

3. **Dadansoddwch y broses dendro ar gyfer yr holl arian a roddwyd i wasanaethau awtistiaeth/datblygu gwasanaethau yn 2015-2022.**
Nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn.

Rydym yn ymwybodol y cafwyd gwerthusiad o wasanaethau awtistiaeth sy'n edrych ar effaith gynnar y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a allai fod o ddiddordeb ac mae hyn ar gael yma: Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. Mae'r adroddiad hwn yn crybwyll bod gwerthusiad llawnach wedi'i gynllunio i'w gyhoeddi yn gynnar yn 2019.

Gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru hefyd ac mae gwybodaeth ynghylch sut mae gwneud cais ar gael yn: https://gov.wales/about/open-government/freedom-of-information/responses/?skip=1&lang=cy

Yn ogystal â hyn, gallech gysylltu â'r Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol y gallai fod ganddynt wybodaeth am arian, cyllidebau, gwariant a thendro/contractau ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth. Dylai gwybodaeth am sut mae gwneud hyn fod ar gael ar eu tudalennau we o dan Ryddid Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau am sut yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir